



Diogelwch ar gyfer Aelodau o'r Senedd a'u staff

27 Ebrill 2023

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 29 Mawrth, pan wnaethoch ofyn:

I would like to request the following information under the Freedom of Information Act.

I am seeking information regarding the cost of security for Members of the Senedd and their staff.

Please could you tell me the:

1.

- a. *The total amount spent on security measures for MS' & their staff in 2023 (up until the most recent figures)*
- b. *The total amount spent on security measures for MS' & their staff in 2022*
- c. *The total amount spent on security measures for MS' & their staff in 2021*

2

- a. *The total amount spent on security measures at constituency offices in 2023 (up until the most recent figures)*
- b. *The total amount spent on security measures at constituency offices in 2023 (up until the most recent figures)*
- c. *The total amount spent on security measures at constituency offices in 2023 (up until the most recent figures)*

3

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN

Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

- a. The total amount spent on security measures at MS' main family residence in 2023 (up until the most recent figures)
- b. The total amount spent on security measures at MS' main family residence in 2022
- c. The total amount spent on security measures at MS' main family residence in 2021

Gellir gweld ein hymateb i'ch cais isod, yn ôl blynnyddoedd ariannol (1 Ebrill i 31 Mawrth) nid blynnyddoedd calendr.

Cwestiwn	Categori	2020-21	2021-22	2022-23
1.	Datrysiadau Gweithwyr Unigol	£14,562.77	£94,115.97	£ 57,733.03
2.	Swyddfa Etholaethol*	£ 2,316.64	£ 1,059.60	£115,438.52
3.	Prif Gartref yr Aelod	£ 661.36	£0	£ 36,885.69
Cyfanswm		£17,540.77	£95,175.57	£210,057.24

Mae'r cyfansymiau uchod yn cynnwys yr Hawliadau Diogelwch Costau Swyddfa canlynol sydd eisoes wedi'u cyhoeddi ar **Chwilio Lwfansau Aelodau - Lwfansau Aelodau (senedd.cymru)**:

Categori	2020-21	2021-22
*Swyddfa Etholaethol	£644.40	£1,059.60

Sylwer - Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys costau Gwasanaeth Diogelwch Comisiwn y Senedd. Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau diogelwch ystâd y Senedd i Aelodau, eu staff, ymwelwyr, contractwyr a staff Comisiwn y Senedd. Nid yw'n bosibl manylu ar gostau diogelwch ar yr ystâd yn benodol ar gyfer Aelodau ac felly nid yw'r ffigurau hyn ar gael.

Mae'r rheolau am yr hyn y mae gan Aelodau o'r Senedd hawl i wneud cais amdano wedi'u nodi yn y **Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau: 2022-23 (senedd.cymru)**.

Yr adrannau perthnasol yw: 4.6. Mesurau diogelwch ym mhrrif gartref Aelod a 6.5. Diogelwch swyddfa.

Mae Penderfyniadau blaenorol ar gael ar ein gwefan - **Penderfyniad (bwrddtaliadau.cymru)**

Mae'r gwariant ar ddiogelwch etholaeth yn 2022-23 yn adlewyrchu cynnydd mewn mesurau diogelwch ar gyfer swyddogion etholedig yn sgil digwyddiadau trasig o ran Aelodau Seneddol San Steffan. Mae'r gwariant yn 2022-23 hefyd yn adlewyrchu dechrau Senedd newydd a derbyn Aelodau newydd sydd wedi bod yn sefydlu eu swyddfeydd etholaethol.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF